

# Cost Anghydraddoldeb lechyd i'r GIG yng Nghymru

## Adroddiad 1: Cost Gysylltiedig ag Anghydraddoldeb yn y Defnydd o Wasanaethau Ysbyty i'r GIG yng Nghymru

Rhagfyr 2021

Canolfan Gydweithredol Sefydliad lechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer lechyd a Llesiant

lechyd Cyhoeddus Cymru



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

lechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Canolfan Gydweithredol Sefydliad  
lechyd y Byd ar Fuddsoddi  
ar gyfer lechyd a Llesiant



World Health Organization  
Collaborating Centre on Investment  
for Health and Well-being

## Awduron\*

Rajendra Kadel, Economegydd Iechyd y Cyhoedd; Oliver Darlington, Modelydd Data Iechyd/Economeg Iechyd; James Allen, Gwyddonydd Iechyd y Cyhoedd; Benjamin Bainham, Dadansoddwr Data; Rebecca Masters, Ymgynghorydd mewn Iechyd y Cyhoedd ac Economeg Iechyd ac Arweinydd Modelu; Dr Mariana Dyakova, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd a Dirprwy Gyfarwyddwr; Yr Athro Mark A Bellis, Cyfarwyddwr

## Adolygwyr cymheiriaid

Hoffem ddiolch i Dr Brendan Collins, Pennaeth Economeg Iechyd, Cyfarwyddiaeth Gyllid, Llywodraeth Cymru; Joanna Charles, Dirprwy Bennaeth Economeg Iechyd, Cyfarwyddiaeth Gyllid, Llywodraeth Cymru; Dr Ak Narayan Poudel, Ymchwilydd Economeg Iechyd, Adran Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Caerlŷr am eu mewnbwn gwerthfawr yn y broses adolygu gan gymheiriaid

## Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar i Grŵp Gwyddonol a Chynghori ar y Cyd WHESRI, Uwch Dîm Arweinyddiaeth Sefydliad Iechyd y Byd a Grŵp Strategol Iechyd Poblogaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu sylwadau defnyddiol.

*\*Canolfan Gydweithio (CC) Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

ISBN 978-1-78986-154-554

© 2021 Public Health Wales NHS Trust.

# Cyflwyniad | Cyflwyniad i brosiect Cost Anghydraddoldeb Iechyd i'r GIG yng Nghymru (CHEW)

- Fel rhan o ymrwymiad cenedlaethol a sefydliadol ehangach i sicrhau tegwch iechyd, mae Canolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cychwyn ar brosiect i amcangyfrif '**Cost Anghydraddoldeb Iechyd i'r GIG yng Nghymru (CHEW)**'
- Mae'r gwaith hwn yn cyflawni Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) tuag at gyrraedd y lefel uchaf posibl o iechyd, datblygu cynaliadwy a ffyniant yng Nghymru a thu hwnt
- Mae'n cyfrannu at ymsefydlu Cymru fel 'safle arloesi byw' a dylanwadwr byd-eang ar degwch iechyd yng nghyd-destun adferiad cynaliadwy a chynhwysol ar ôl COVID-19 sy'n cael ei ysgogi gan dystiolaeth
- Fel rhan annatod o fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI), nod y prosiect yw helpu i lunio'r achos economaidd dros fynd i'r afael ag angen gofal iechyd sydd heb ei ddiwallu a chryfhau'r achos dros fuddsoddi mewn atal ac ymyrraeth gynnar er mwyn ceisio leihau'r bwlch iechyd yng Nghymru
- Mae'n bwriadu gwneud hyn drwy ymchwilio i anghydraddoldeb y defnydd o'r gwasanaeth iechyd ac amcangyfrif y gost ariannol gysylltiedig, gan gynnwys data gofal sylfaenol ac eilaidd a ddadansoddwyd o ran categori gwasanaeth, oedran, rhyw a lefel amddifadedd
- Mae'r **adroddiad cyntaf hwn gan CHEW** yn canolbwyntio ar amcangyfrif cost anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â defnyddio gwasanaethau ysbyty'n unig; mae adroddiadau pellach yn bwriadu ehangu dealltwriaeth am anghydraddoldeb yn y defnydd o'r gwasanaeth iechyd, gan gynnwys gofal sylfaenol a chymunedol, a'r gost sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sy'n benodol i afiechydon
- Gobeithiwn y bydd hyn yn llenwi bwlch pwysig o ran tystiolaeth ac yn caniatáu blaenoriaethu adnoddau ar sail tystiolaeth a gweithredu polisi i helpu i sicrhau Cymru lachach, sy'n Fwy Cyfartal a Ffyniannus gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol

# Cyflwyniad | Cefndir a rhesymeg

- Gall ffactorau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol ehangach ddylanwadu'n fawr ar iechyd a llesiant y boblogaeth ac mae eu heffaith yn amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol grwpiau o'r boblogaeth (fel y'i diffinnir yn ôl oedran, rhyw, lefel amddifadedd, ac ati) (*Marmot & Bell, 2012*) gan arwain at wahanol lefelau o angen gofal iechyd, sy'n gofyn am fynediad a darpariaeth berthnasol i wasanaethau gofal iechyd
- Mae anghydraddoldeb iechyd wedi bod yn broblem ers tro byd yng Nghymru: mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig siawns llawer uwch o farwolaeth oherwydd achosion y gellir eu hosgoi (3.7 gwaith i ddynion a 3.8 gwaith i fenywod) (*ONS, 2019*) ac iechyd llawer gwaeth gyda llai o flynyddoedd o ddisgwyliad oes iach ar enedigaeth (16.9 mlynedd ar gyfer dynion a 18.3 oed i fenywod) (*ONS, 2021*) o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig
- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn tueddu i ddefnyddio mwy o ofal iechyd ar unrhyw oedran penodol, o ran amllder a chost oherwydd gallent brofi mwy o gyflyrau iechyd niweidiol (*Cookson, 2016*)
- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal heb ei gynllunio (sylfaenol ac achosion brys) ac yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau arbenigol ac atal (*Dixon et al., 2007*)
- Gall gwahaniaethau yn y defnydd o wasanaethau gofal iechyd gael effaith economaidd enfawr yn y tymor byr a'r tymor hir. Er enghraifft, amcangyfrifir bod y gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb o ran defnyddio'r gwasanaeth iechyd yn £4.8 biliwn y flwyddyn i'r GIG yn Lloegr (*Asaria et al., 2016*)

**Ni phrofwyd cost economaidd sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn y defnydd o wasanaethau gofal iechyd ar gyfer Cymru ac nod prosiect CHEW a'r adroddiad cyfredol yw llenwi'r bwlch hwn**

# Ystyriaethau polisi

- Mae lleihau'r bwlch tegwch iechyd yn her amlweddol, aml-lefel, gymhleth ac mae angen dealltwriaeth wedi'i theilwra a gweithredu cydlynol ar draws gwahanol sectorau, yn ogystal ag ar draws yr holl wasanaethau iechyd, fel y gallwn (a) fynd i'r afael â phenderfyniadau ehangach anghydraddoldebau iechyd; yn ogystal â (b) gweld beth gall y gwasanaeth gofal iechyd (GIG) ei wneud i fynd i'r afael â hwy
- Mae cymysgedd o achosion lleol yn ystyriaeth bwysig ar gyfer cynllunio gwasanaethau gofal iechyd, gan fod oedran, rhyw a lefel amddifadedd yn cael effaith sylweddol ar sut a pha wasanaethau a ddefnyddir gan y gymuned leol, sydd yn ei dro yn effeithio ar y gost ariannol o'u darparu
- Gallai hybu iechyd, atal sylfaenol ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned, yn gyffredinol ac wedi'u targedu at y rhai mwyaf anghenus, wella canlyniadau iechyd, galluogi mynediad amserol i wasanaethau, lleihau'r angen am ofal mewn ysbyty ac yn debygol o leihau anghydraddoldebau a chostau gofal iechyd, yn enwedig costau sy'n gysylltiedig â chysylltiadau argyfwng a damweiniau ac achosion brys (A&E)
- Mae pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol ac wedi creu gwendidau newydd, sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus i sicrhau na chaiff anghydraddoldebau o ran mynediad i wasanaethau gofal iechyd, eu darparu a'u hansawdd eu chwyddo ymhellach, ond y cânt eu lleihau fel rhan o adferiad GIG a'r adferiad cynaliadwy ehangach

**Gobeithiwn y bydd canfyddiadau prosiect CHEW yn cyfrannu at archwilio'r berthynas rhwng statws iechyd, anghenion gofal iechyd, mynediad i'r gwasanaeth iechyd, darpariaeth a defnydd, a'r gost ariannol gysylltiedig er mwyn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i deilwra gwasanaethau a blaenoriaethu buddsoddiad tuag at leihau'r bwlch tegwch iechyd yng Nghymru**

# Tabl Cynnwys



## Nod ac Amcanion

Tudalen 7



## Crynodeb o'r dulliau

Tudalen 8



## Y Negeseuon Allweddol

Tudalennau 9 - 10



## Canlyniadau

Tudalennau 11 - 26



## Cyfyngiadau

Tudalen 27



## Cyfeiriadau

Tudalen 28



## Atodiad Technegol

Tudalennau 29 - 34



## Dangosfwrdd Rhyngweithiol

(Wedi'i optimeiddio ar gyfer dyfeisiau  
bwrdd gwaith)

# Nod ac Amcanion

## Nod:

Amcangyfrif y gost ariannol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn y defnydd o wasanaethau ysbyty i'r GIG yng Nghymru er mwyn helpu i lywio penderfyniadau a blaenoriaethu adnoddau tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar drwy lens tegwch, gan gyfrannu at adferiad COVID-19 cynaliadwy a chynhwysol

## Amcanion:

- Archwilio patrwm cymdeithasol derbyniadau cleifion mewnol mewn ysbytai, apwyntiadau cleifion allanol, a nifer yr ymweliadau damweiniau ac achosion brys (A&E) yng Nghymru yn ôl grwpiau oedran, rhyw a lefel amddifadedd
- Amcangyfrif cyfanswm y gost flynyddol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb wrth ddefnyddio gwasanaethau ysbyty yng Nghymru yn ôl ac o fewn categorïau gwasanaeth, yn ôl grwpiau oedran a rhyw
- Amcangyfrif cost flynyddol gyfartalog y pen o'r defnydd o wasanaethau ysbyty yng Nghymru yn ôl categorïau gwasanaeth, yn ôl oedran, rhyw a lefel amddifadedd



# Dulliau | Ffynonellau Data


- Tynnwyd data a gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau fel yr amlinellir isod ar gyfer y cyfnod **Ebrill 2018 - Mawrth 2019**
- Darperir methodoleg fanwl gyda diffiniadau gweithredol a dadansoddiad ystadegol yn Atodiad I (*tudalennau 29-34*)



## Costau

### Llyfr Glas 2018/19

Adnoddau Gofal Iechyd (HRG) a ddarperir gan yr Uned Darparu Cyllid yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn caniatáu i gost fod yn gysylltiedig â phob cyfnod gofal mewn ysbyty, apwyntiadau cleifion allanol ac ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys



## Cyfnodau yn yr Ysbyty


### Digidol Cymru (DHCW)

#### Derbyniadau cleifion mewnol (cyfnodau)

- Dewisol
- Argyfw
- Mamolaeth

#### Apwyntiadau cleifion allanol

#### Ymweliadau ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (A&E)



## Demograffeg

### Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae amcangyfrifon poblogaeth Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 2018 yn caniatáu i ddadansoddiadau gael eu haddasu i faint poblogaeth sylfaenol

### Llywodraeth Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn caniatáu i ddadansoddiadau gael eu dadgyfuno yn ôl lefel amddifadedd



# Negeseuon Allweddol

- Amcangyfrifir mai **cyfanswm y gost flynyddol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb wrth ddefnyddio gwasanaethau ysbyty i'r GIG yng Nghymru yw £322 miliwn, sy'n cyfateb ag 8.7% o gyfanswm gostau gwasanaeth ysbyty, yn 2018/19**
- Mae **pobl oedran gweithio (16 – 64 oed) yn profi'r gost uchaf sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb** ar gyfer pob categori gwasanaeth ysbyty, ac eithrio derbyniadau dewisol cleifion mewnol lle mae dynion hŷn ( $\geq 65$  oed) o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'r gost
- Ar y cyfan, **nid oes gwahaniaeth sylweddol yn y gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb rhwng defnydd dynion a menywod o wasanaethau ysbyty** (dynion: 46%; menywod 54% o gyfanswm y gost)
- O fewn pob categori gwasanaeth — **ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, ac yna derbyniadau brys cleifion mewnol, sydd â'r gost gyfrannol (%) uchaf y gellir ei briodoli i anghydraddoldeb** yn flynyddol, 31% a 23% yn y drefn honno
- O ran patrwm cymdeithasol y defnydd o wasanaethau - mae **graddiant cymdeithasol clir gyda bwlch anghydraddoldeb mwy ar gyfer ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, ac yna derbyniadau brys a mamolaeth i ysbytai**
- Mae'r **gost ariannol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn cael ei hysgogi i raddau helaeth gan wahaniaethau yn y defnydd o wasanaethau ysbyty** ar draws cwintelau amddifadedd; fodd bynnag, mewn rhai achosion ni ellir egluro amrywiad cost yn ôl gwasanaeth yn unig

# Negeseuon Allweddol

- **Mae cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran a chategori gwasanaeth ysbyty**, gan gynnwys derbyniadau cleifion mewnol, apwyntiadau cleifion allanol ag ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys:
  - **Derbyniadau brys cleifion mewnol yw'r cyfrannwr mwyaf** at y gost gyffredinol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb, da chost ychwanegol o £247.4 miliwn y flwyddyn
  - **Derbyniadau cleifion mewnol mamolaeth yw'r cyfrannwr lleiaf** at y gost gyffredinol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb gyda chost ychwanegol o £1.8 miliwn y flwyddyn
- **Mae'r gost flynyddol gyfartalog y pen yn uwch ar gyfer dynion a menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig** o'i gymharu â'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ym mhob categori gwasanaeth (gan gynnwys costau ar gyfer pob oedran), ac eithrio derbyniadau cleifion mewnol mamolaeth, sy'n dangos:
  - **Graddiant cymdeithasol clir** ar draws pob categori gwasanaeth, ac eithrio derbyniadau cleifion mewnol dewisol a mamolaeth
  - Ceir **bwloch anghydraddoldeb ehangach ar gyfer ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys a derbyniadau brys cleifion mewnol a chost uwch i fenywod iau (18-28 oed)** yn yr un categorïau
- Mae **amddifadedd yn effeithio'n wahanol ar y gost ar gyfer derbyniadau cleifion mewnol mamolaeth yn ôl y grŵp oedran** — priodolir cost uwch i fenywod yn eu hoedran atgenhedlu gynnar (15 — 29 oed) o'r ardaloedd mwy difreintiedig; ac i fenywod yn eu hoedran atgenhedlu diweddarach (30 — 44 oed) o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig

## Cyflwynir y canlyniadau o ran:

I. Patrwm cymdeithasol o ddefnydd gwasanaethau ysbyty (*tudalennau 12 — 13*)

II. Cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb wrth ddefnyddio gwasanaethau ysbyty (*tudalennau 14 — 19*)

- Cyfanswm y gost yn ôl categorïau rhyw a gwasanaeth
- Y gost gyffredinol yn ôl categorïau gwasanaeth ysbyty yn ôl grŵp oedran a rhyw: derbyniadau cleifion mewnol (dewisol, brys a mamolaeth), apwyntiadau cleifion allanol, ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys
- III. Cost gyfartalog y pen yn ôl categorïau gwasanaeth ysbyty, yn ôl oedran, rhyw a lefel amddifadedd (*tudalennau 20 — 26*)
  - Derbyniadau cleifion mewnol: dewisol, brys a mamolaeth
  - Apwyntiadau cleifion allanol
  - Ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys

Mae data manwl ar gael yn nangosfwrdd rhyngweithiol digidol cysylltiedig [CHEW](#) (Wedi'i optimeiddio ar gyfer dyfeisiau bwrdd gwaith).

# Canlyniadau I | Patrwm cymdeithasol o ddefnyddio gwasanaethau ysbyty, Cymru, 2018/19

## Oedran

- Yr oedran canolrifol uchaf ar gyfer defnyddio gwasanaethau ysbyty yw derbyniadau dewisol (63 mlynedd) a derbyniadau brys (62 mlynedd), a'r isaf yw ar gyfer ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys (39 mlynedd) (*tudalennau 13 a 33*)

## Rhyw

- Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y defnydd o wasanaethau gan ddynion a menywod ar draws gwahanol categorïau gwasanaeth
- Mae'r defnydd o wasanaethau i fenywod ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol yn uwch na dynion, a allai fod wedi'i ddylanwadu gan ffactorau gwahanol, megis galw sy'n gysylltiedig â mamolaeth neu alw cymdeithasol/diwylliannol (gwrywdod/benyweidd-dra) (*tudalen 33*)


## Graddiant (amddifadedd) cymdeithasol (*tudalennau 13 a 33*)

- Mae gwahaniaethau ehangach yn y defnydd o wasanaethau ysbyty rhwng pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ar gyfer ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, ac yna derbyniadau brys a mamolaeth cleifion mewnol
- Mae graddiant cymdeithasol clir ar gyfer derbyniadau cleifion mewnol brys a mamolaeth, ac ar gyfer y rhai sy'n ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys, gyda defnydd uwch o wasanaethau yn y cwintelau mwy difreintiedig
- Nid oes graddiant cymdeithasol clir ar gyfer derbyniadau cleifion mewnol dewisol ac apwyntiadau cleifion allanol

## Graddiant cymdeithasol heb ei addasu mewn perthynas â defnydd gwasanaeth ysbyty



## Oedran canolrifol cleifion ar gyfer gwahanol fathau o ddefnydd o wasanaethau ysbyty



# Canlyniadau II | Cost gysylltiedig ag anghydraddoldeb wrth ddefnyddio gwasanaethau ysbyty, Cymru, 2018/19

## Cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb (amddifadedd) ym mhob categori gwasanaeth:

- **Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost flynyddol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb wrth ddefnyddio gwasanaethau ysbyty i'r GIG yng Nghymru yw £322 miliwn**, sy'n cyfateb i 8.7% o gyfanswm treuliau gwasanaeth ysbyty, sydd wedi'i lywio'n bennaf gan ddefnydd uwch o wasanaethau ymhlith pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwy difreintiedig o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig
- **Derbyniadau cleifion mewnol brys yw'r cyfrannwr mwyaf at y gost gyffredinol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb**, gyda chost ychwanegol o £247.4 miliwn y flwyddyn
- **Derbyniadau cleifion mewnol mamolaeth yw'r cyfrannwr lleiaf at y gost gyffredinol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb**, gyda chost ychwanegol o £1.8 miliwn y flwyddyn

## Cost gyfrannol (%) sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb (amddifadedd) o fewn categori gwasanaeth:

- Ymweliadau ag **adrannau damweiniau ac achosion brys, ac yna derbyniadau brys cleifion mewnol**, sydd â'r gost uchaf a briodolir i anghydraddoldeb yn flynyddol, sy'n cyfrif am 31% a 23% yn y drefn honno

Mae **costau cyffredinol a chymesur (%) uwch sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ar gyfer derbyniadau brys cleifion mewnol ac achosion brys** yn awgrymu bod defnydd/galw yn uwch ymhlith pobl o'r ardaloedd mwy difreintiedig, a allai gael eu llywio gan angen gofal iechyd sydd heb ei ddiwallu a awgrymir gan y defnydd isel o dderbyniadau cleifion mewnol dewisol ac apwyntiadau cleifion allanol

Mae gan **dderbyniadau cleifion mewnol dewisol gost negyddol yn gyffredinol ac yn gyfrannol (%) sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb**, sy'n dangos bod pobl o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn cyfrannu fwyaf at y gost (a gaiff ei lywio'n bennaf gan ddefnydd uwch) o'i gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd mwy difreintiedig

# Canlyniadau II | Cost gysylltiedig ag anghydraddoldeb wrth ddefnyddio gwasanaethau ysbyty, Cymru, 2018/19

## Dosbarthiad oedran a rhyw

- **Ar gyfer derbyniadau dewisol cleifion mewnol:**
  - Mae **dynion 65 oed a hŷn o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn cyfrannu at y rhan fwyaf** o'r gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb, gan arwain at gost negyddol gyffredinol a briodolir i anghydraddoldeb ar gyfer y categori gwasanaeth hwn
  - Mae **gwahaniaeth sylweddol yn y gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb** rhwng dynion a menywod **ymhlith y grŵp oedran gweithio (16 – 64 oed) gyda dynion yn cyfrannu cost sylweddol uwch** o'i gymharu â'r menywod
- **Ar gyfer derbyniadau brys cleifion mewnol, mae pobl 16 oed a hŷn o'r ardaloedd mwy difreintiedig yn cyfrannu at y rhan fwyaf** o'r gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb
- **Ar gyfer derbyniadau cleifion mewnol mamolaeth**, mae menywod yn eu hoedran atgenhedlu gynnar (15 – 29 oed) o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn profi cost uwch sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb, o'i gymharu â'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig sydd â chost uwch sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn ddiweddarach yn eu hoedran atgenhedlu (30 – 44 oed)
- Mae'r **grŵp oedran gweithio (16 – 64 oed) o'r ardaloedd mwy difreintiedig yn cyfrannu at y rhan fwyaf** o'r gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb **ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol ac ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys**



Caiff y **gost ariannol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ei hysgogi i raddau helaeth gan wahaniaethau yn y defnydd o wasanaethau ysbyty** rhwng y cwintel lleiaf difreintiedig a'r pedwar cwintel amddifadedd sy'n weddill; fodd bynnag, mewn rhai achosion ni ellir egluro amrywio costau drwy ddefnydd o wasanaethau yn unig



# Canlyniadau II | Cost gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn ôl categorïau rhyw a gwasanaeth, Cymru, 2018/19

## Cyfanswm Costau

## Cost o fewn y categori gwasanaeth




**Nodyn:** Mae costau negyddol (cyfanswm a %) yn dangos bod pobl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn cyfrannu fwyaf at gost derbyniadau dewisol


■ Dynion ■ Menywod

# Canlyniadau II | Cost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn ôl categori gwasanaeth ysbyty yn ôl oedran a rhyw: derbyniadau cleifion mewnol dewisol a brys, Cymru, 2018/19

## Dewisol




## Argyfwng




■ Dynion ■ Menywod

# Canlyniadau II | Cost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn ôl categori gwasanaeth ysbyty yn ôl oedran a rhyw: derbyniadau cleifion mewnol mamolaeth, Cymru, 2018/19




# Canlyniadau II | Cost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn ôl categori gwasanaeth ysbyty yn ôl oedran a rhyw: apwyntiadau cleifion allanol ac ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, Cymru, 2018/19

## Apwyntiadau cleifion allanol



## Ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys



# Canlyniadau III | Cost y pen sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn ôl categorïau gwasanaeth ysbyty

## Derbyniadau dewisol cleifion mewnol

- Mae'r gost flynyddol y pen ychydig yn uwch ar gyfer dynion a menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (16.0% a 18.0%, yn y drefn honno) o'i gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (gan gynnwys costau ar gyfer pob oedran)
- Nid oes graddiant cymdeithasol clir ar draws gwahanol grwpiau oedran ar gyfer y ddau ryw
- Mae'r gost ar gyfer dynion yn y grŵp 75-85 mlwydd oed yn uwch i'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig

## Derbyniadau cleifion mewnol brys


- Mae'r gost flynyddol y pen yn llawer uwch i ddynion a menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (57.0% a 62.0%, yn y drefn honno) o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (gan gynnwys costau ar gyfer pob oedran)
- Mae graddiant cymdeithasol clir i'r rhai sy'n 40 oed ac yn uwch ar gyfer y ddau ryw

## Derbyniadau cleifion mewnol mamolaeth

- Mae'r gost flynyddol y pen bron yn ddwbl (99.9% yn uwch) ymhlith menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y grŵp oedran atgenhedlu cynnar (15-29 oed) o'i gymharu â'r rheini o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig
- Mae'r gost flynyddol y pen 31.1% yn uwch ymhlith menywod sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y grŵp oedran atgenhedlu diweddarach (30-44 oed) o'i gymharu â'r rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig

# Canlyniadau III | Cost y pen sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ar gyfer derbyniadau cleifion mewnol dewisol, Cymru, 2018/19

## Gwryw




— Lleiaf difreintiedig (C1)

— C2-C4


— Mwyaf difreintiedig (C5)

## Benyw




# Canlyniadau III | Cost y pen sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ar gyfer derbyniadau brys cleifion mewnol, Cymru, 2018/19

## Gwryw




## Benyw



— Lleiaf difreintiedig (C1)   
 — C2-C4   
 — Mwyaf difreintiedig (C5)



# Canlyniadau III | Cost y pen sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ar gyfer derbyniadau cleifion mewnol mamolaeth, Cymru, 2018/19



## Apwyntiadau cleifion allanol

- Mae'r gost flynyddol y pen ychydig yn uwch ar gyfer dynion a menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (14.0% a 18.0%, yn y drefn honno) o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (gan gynnwys costau ar gyfer pob oedran)
- Mae graddiant cymdeithasol amlwg yn y grwpiau canol oed ar gyfer y ddau ryw
- Mae gwahaniaeth ehangach yn y gost rhwng y rhai mwyaf a'r rhai lleiaf difreintiedig ymhlith menywod iau (18-28 oed) o'i gymharu â dynion o'r un oedran


## Ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys

- Mae'r gost flynyddol y pen yn llawer uwch i ddynion a menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (67.0% a 68.0%, yn y drefn honno) o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (gan gynnwys costau ar gyfer pob oedran)
- Mae graddiant cymdeithasol mwy amlwg yn y grwpiau canol oed ar gyfer dynion, o'i gymharu â menywod o'r un oedran
- Mae gwahaniaeth ehangach yn y gost rhwng y rhai mwyaf a'r rhai lleiaf difreintiedig ymhlith menywod iau (18-28 oed) o'i gymharu â dynion o'r un oedran


Caiff y gost ariannol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ei hysgogi i raddau helaeth gan wahaniaethau yn y defnydd o wasanaethau ysbyty rhwng y cwintel lleiaf difreintiedig a'r pedwar cwintel amddifadedd sy'n weddill; fodd bynnag, mewn rhai achosion ni ellir egluro amrywio costau drwy ddefnydd o wasanaethau yn unig

# Canlyniadau III | Cost y pen sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol, Cymru, 2018/19

## Gwryw




## Benyw




— Lleiaf difreintiedig (C1)    — C2-C4    — Mwyaf difreintiedig (C5)

# Canlyniadau III | Cost y pen sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ar gyfer ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, Cymru, 2018/19

## Gwryw



## Benyw



— Lleiaf difreintiedig (C1) — C2-C4 — Mwyaf difreintiedig (C5)

# Cyfyngiadau

- Cafodd y data poblogaeth a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon eu cwtdgi yn 90 oed, gan dybio bod y defnydd o wasanaethau gofal iechyd yn parhau i fod yn gyson mewn grwpiau oedran hŷn (90+)
- Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) i gategoreiddio poblogaeth yn bum grŵp cwintel. Mae'r mynegai yn fesur sy'n seiliedig ar ardal, sy'n golygu, yn y dadansoddiad hwn, y caiff casgliadau am natur unigolion eu tynnu o gasgliadau am y grŵp, e.e. gall unigolyn fyw mewn ardal sydd â lefel uchel o amddifadedd, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod yr unigolyn yn ddifreintiedig
- Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y gost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb wrth ddefnyddio gwasanaethau ysbyty, a amcangyfrifir yn ôl categori gwasanaeth ac yn ôl oedran, rhyw a lefel amddifadedd. Fodd bynnag:
  - Gallai gwasanaethau eraill, megis gofal sylfaenol a chymdeithasol, a rhaglenni iechyd y cyhoedd (atal) gael effaith ar ddefnydd a chost economaidd gwasanaethau eilaidd (ysbyty), yn ogystal â chost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb, ac y mae angen eu harchwilio ymhellach
  - Nid yw nodweddion eraill megis ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac ati a'u heffaith ar y defnydd o wasanaethau a'r gost economaidd gysylltiedig yn destun yr adroddiad hwn ac mae angen eu harchwilio ymhellach
  - Gallai gwahanol glefydau/cyflyrau iechyd arwain at wahaniaethau penodol yn y defnydd o wasanaethau iechyd a chost economaidd cysylltiedig, ac y mae angen eu harchwilio ymhellach
  - Gallai agweddau eraill ar y system gofal iechyd gael effaith ar anghydraddoldeb a chost economaidd gysylltiedig, megis mynediad i wasanaethau iechyd, darparu ac ansawdd y gwasanaethau iechyd, a rhaid eu hystyried a'u harchwilio ymhellach

# Cyfeiriadau

1. Marmot, M., & Bell, R. (2012). Fair society, healthy lives. *Public Health*, 126 Suppl 1, S4-s10. doi:10.1016/j.puhe.2012.05.014.
2. Office for National Statistics. (2021). Health state life expectancies by national deprivation deciles, Wales: 2017 to 2019. Retrieved from <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/healthstatelifeexpectanciesbynationaldeprivationdecileswales/2017to2019>
3. Office for National Statistics. (2019). Socioeconomic inequalities in avoidable mortality, England and Wales: 2001 to 2017. Retrieved from <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/articles/measuring socioeconomic inequalities in avoidable mortality in england and wales/2001 to 2017>
4. Cookson, R., Propper, C., Asaria, M., & Raine, R. (2016). Socio-Economic Inequalities in Health Care in England. *Fiscal Studies*, 37(3-4), 371-403. doi:https://doi.org/10.1111/j.1475-5890.2016.12109.
5. Dixon, A., Le Grand, J., Henderson, J., Murray, R., & Poteliakhoff, E. (2007). Is the British National Health Service equitable? The evidence on socioeconomic differences in utilization. *J Health Serv Res Policy*, 12(2), 104-109. doi:10.1258/135581907780279549.
6. Asaria, M., Doran, T., & Cookson, R. (2016). The costs of inequality: whole-population modelling study of lifetime inpatient hospital costs in the English National Health Service by level of neighbourhood deprivation. *J Epidemiol Community Health*, 70(10), 990-996. doi:10.1136/jech-2016-207447.
7. Office for National Statistics. (2019, 26/06/2019). Population estimates for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland: mid-2018. Retrieved from <https://www.ons.gov.uk/releases/populationestimatesfortheukenglandandwalesscotlandandnorthernirelandmid2018>
8. Welsh Government. (2019). Welsh Index of Multiple Deprivation (full Index update with ranks): 2019. Retrieved from <https://gov.wales/welsh-index-multiple-deprivation-full-index-update-ranks-2019>

## Atodiad 1 Dulliau | Diffiniadau gweithredol o gategoriâu gwasanaeth ysbyty

**Derbyniadau Cleifion Mewnol i'r Ysbyty:** Claf a dderbynnir yn ffurfiol i ysbyty gyda gorchymyn meddyg am ofal meddygol angenrheidiol a phriodol a/neu driniaeth salwch neu faterion meddygol eraill gyda'r bwriad o aros yn yr ysbyty o leiaf un noson

**Derbyniadau Dewisol Cleifion Mewnol:** Claf/cleient y mae ei ddyddiad derbyn i'r ysbyty yn hysbys ymlaen llaw gan ganiatáu gwneud trefniadau ymlaen llaw

**Derbyniadau Brys Cleifion Mewnol:** Claf/cleient a dderbynnir i'r ysbyty pan fydd mynediad yn anrhagweladwy ac ar fyr rybudd oherwydd angen clinigol

**Derbyniad Cleifion Mewnol Mamolaeth:** Mae hwn yn dderbyniad o fenyw feichiog neu fenyw a fu'n feichiog yn ddiweddar i ward mamolaeth (gan gynnwys cyfleusterau geni) ac eithrio pan fo'r bwriad i derfynu beichiogrwydd

**Apwyntiadau Cleifion Allanol:** Apwyntiad mewn clinig adran cleifion allanol mewn ysbyty at ddibenion ymgynghori, archwiliad neu driniaeth gan feddyg neu nyrs annibynnol

**Ymweliadau ag adrannau Damweiniau ac Achosion Brys:** Ymweliad gan glaf/cleient ag Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys i gael triniaeth gan y gwasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys



## Atodiad 2 Dulliau | Ffynonellau data

- Tynnwyd data ar gyfer y dadansoddiad o warws data Iechyd a Gofal Digidol Cymru o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019 (*heb ei gyhoeddi*)
- Ar gyfer data cyfnodau ysbyty, crëir cofnod Cyfnod Ymgynghorol Gorffenedig (FCE) newydd a dyrennir y FCE i Grŵp Adnoddau Gofal Iechyd (HRG), sy'n categoreiddio achosion cleifion mewnol mewn ysbyty yn seiliedig ar lefel y gwasanaeth
- Casglwyd gwybodaeth am gostau Llyfr Glas (HRG a chostau uned) ar gyfer 2018/19 gan Uned Cyllid a Chyflenwi (FDU) Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mewnforiwyd data costau HRG ar gyfer gwahanol wasanaethau cleifion mewnol i weinydd data SQL Iechyd a Gofal Digidol Cymru (*heb ei gyhoeddi*)
- Cymerwyd amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn 2018 ar gyfer Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (*ONS, 2019*)
- Cafodd trigolion Cymru a ymwelodd ag ysbytai'r GIG neu ysbytai preifat a ariennir gan y GIG – cleifion mewnol (dewisol, brys a mamolaeth), cleifion allanol, ac adrannau damweiniau ac achosion brys (gan gynnwys y rhai a ymwelodd ag ysbytai yn Lloegr) eu cynnwys yn yr astudiaeth
- Roedd newidyn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yn amrywio at ddibenion cael cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a gymerwyd o god post Llywodraeth Cymru i dabl chwilio am safleoedd MALIC (*Llywodraeth Cymru, 2019*)
- Mae'r set ddata yn cynnwys gwybodaeth am oedran, rhyw, ardal breswyl a statws defnydd y gwasanaeth iechyd cleifion (e.e. diagnosis, gweithdrefnau, amleddau)

## Atodiad 3 Dulliau | Dadansoddi, canlyniadau a mesurau cost

- Mae'r dadansoddiad yn defnyddio fersiwn wedi ei symleiddio o ddefnydd y gwasanaeth iechyd ac amcangyfrif cost, yn ei raddnodi gan ddefnyddio niferoedd y cleifion ac yn datgymalu'r canlyniadau lefel y boblogaeth yn ôl y patrymau cymdeithasol a welwyd yn y data defnydd o ofal iechyd
- Cyfrifir cost flynyddol (cyfanswm) anghydraddoldeb iechyd drwy luosi'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y gost flynyddol gyfartalog a chost flynyddol gyfartalog gan gyfeirio at y grŵp lleiaf difreintiedig yn ôl poblogaeth ganol blwyddyn
- Cyfrifir y gost flynyddol gyfartalog y pen drwy rannu cyfanswm costau defnydd y gwasanaeth iechyd oedran-benodol gyda'r boblogaeth ganol blwyddyn
- Prif ganlyniadau'r astudiaeth oedd cyfanswm a chostau penodol (wedi'u datgrynhoi yn ôl categori gwasanaeth ysbyty, oedran a rhyw) sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb defnydd gwasanaeth ysbyty i GIG Cymru
- Mae data ar gyfer derbyniadau dewisol, achosion brys a mamolaeth cleifion mewnol, apwyntiadau cleifion allanol a derbyniadau damweiniau ac achosion brys wedi cael eu dadgyfuno yn ôl oedran, rhyw a lefel yr amddifadedd
- Mae'r gost gyfartalog y pen (ar gyfer derbyniadau dewisol, achosion brys a mamolaeth cleifion mewnol; apwyntiadau cleifion allanol ac ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys) wedi cael ei dadgyfuno yn ôl oedran, rhyw a lefel amddifadedd
- Mae dadgyfuno oedran ar gyfer y grwpiau oedran: <1 flwyddyn (Babanod), <5 oed (plant dan 5), <16 oed (plant o dan 16), 16 – 64 oed (oedolion oedran gweithio) a 65 oed ac uwch (pobl hŷn); ac mae gwasanaethau mamolaeth ar gyfer 15 i 44 oed

## Atodiad 4 Dulliau | Dadansoddiad ystadegol

- Datblygwyd ymholiadau SQL ar gyfer pob set ddata (cyfnodau o gleifion mewnol mewn ysbyty gan gynnwys triniaeth ddewisol, brys a mamolaeth; apwyntiadau cleifion allanol; ac ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys) i ddadansoddi defnydd y gwasanaeth iechyd a data am gostau
- Yn achos defnydd brys o wasanaethau cleifion mewnol, gwnaed dadansoddiad cost ar wahân ar gyfer cyfnodau arhosiad byr (llai na 2 ddiwrnod) a chyfnodau arhosiad hir (2 ddiwrnod neu fwy) ac yna cyfunwyd y ddau i amcangyfrif cyfanswm costau cleifion mewnol brys
- Cafodd data o'r gweinydd SQL eu hechdynnu i daflenni Excel gan ddefnyddio ymholiadau SQL yn ôl oedran, rhyw a chwintel amddifadedd
- Defnyddiodd yr astudiaeth hon fersiwn wedi'i symleiddio o ddefnydd y gwasanaeth iechyd ac amcangyfrif cost, ei raddnodi gan ddefnyddio niferoedd y cleifion a dadgyfuno'r canlyniadau lefel poblogaeth yn ôl y patrymau cymdeithasol a welwyd yn y data defnydd o ofal iechyd

### Fformiwlâu dadansoddi ystadegol:

$$Cost\ Cyfartalog_{Oed,Rhyw,WIMD} = \frac{\sum Costau\ Ysbyty_{Oed,Rhyw,WIMD}}{\sum Poblogaeth_{Oed,Rhyw,WIMD}}$$

$$Cost\ Anghydraddoldeb_{Oed,Rhyw,WIMD} = \sum [Poblogaeth_{Oed,Rhyw,WIMD} \times (Cyfanswm\ Costau\ Cyfartalog_{Oed,Rhyw,WIMD} - Costau\ Cyfartalog_{Oed,Rhyw,WIMD=C_1})]$$

## Atodiad 5 Patrwm cymdeithasol y defnydd o wasanaethau ysbyty yn ôl oedran, rhyw a lefel amddifadedd (yr holl ddata), Cymru 2018/19

Nodweddion	Cyfnodau Cleifion Mewnol mewn Ysbyty					Poblogaeth
	Dewisol	Argyfwng	Mamolaeth	Claf Allanol	Damweiniau ac achosion brys	(Canol Blwyddyn 2018)
N	564,550	572,667	83,573	4,453,343	870,362	3,138,631
Oedran Canolrif	63 Blynnyddoedd	62 Blynnyddoedd	29 Blynnyddoedd	56 Blynnyddoedd	39 Blynnyddoedd	42.5 Blynnyddoedd
Rhyw						
Gwryw	276,584 (49.0%)	276,043 (48.2%)	N/A	1,941,852 (43.6%)	436,591 (50.2%)	1,547,309 (49.3%)
Benyw	287,945 (51.0%)	296,607 (51.8%)	83,573 (100.0%)	2,511,491 (56.4%)	433,771 (49.8%)	1,591,322 (50.7%)
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019)						
C1 (Lleiaf Difreintiedig)	114,544 (20.3%)	90,525 (15.8%)	13,950 (16.7%)	860,237 (19.3%)	119,491 (13.7%)	623,358 (19.9%)
C2	118,585 (21.0%)	105,046 (18.3%)	13,742 (16.5%)	894,317 (20.1%)	164,208 (18.9%)	638,695 (20.4%)
C3	114,761 (20.3%)	112,173 (19.6%)	14,642 (17.5%)	866,161 (19.5%)	180,290 (20.7%)	643,563 (20.5%)
C4	110,618 (19.6%)	125,844 (22.0%)	17,403 (20.8%)	910,571 (20.5%)	202,670 (23.3%)	618,030 (19.7%)
C5 (Mwyaf Difreintiedig)	106,021 (18.8%)	139,062 (24.3%)	23,778 (28.5%)	922,057 (20.7%)	203,703 (23.4%)	614,985 (19.6%)

## Atodiad 6 Cost sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn ôl categorïau gwasanaeth ysbyty a rhyw (yr holl ddata), Cymru 2018/19

Categori cost	Dewisol	Argyfwng	Mamolaeth	Claf Allanol	Damweiniau ac achosion brys	Cyfanswm
<b>Gwryw</b>						
Cost amddifadedd (£)	-18,435,368	125,104,821	N/A	15,205,362	27,420,038	149,294,853
Cyfanswm y gost (£)	802,435,560	539,806,411	N/A	262,150,020	87,318,200	1,691,710,191
Cyfran amddifadedd*	-2.30%	23.18%	N/A	5.80%	31.40%	8.83%
<b>Benyw</b>						
Cost amddifadedd (£)	-1,892,140	122,301,873	1,812,832	24,064,656	26,741,279	173,028,500
Cyfanswm y gost (£)	813,969,605	548,024,171	226,561,355	339,051,285	86,754,200	2,014,360,616
Cyfran amddifadedd*	-0.23%	22.32%	0.80%	7.10%	30.82%	8.59%
<b>Cyfanswm</b>						
Cost amddifadedd (£)	-20,327,508	247,406,694	1,812,832	39,270,018	54,161,317	322,323,353
Cyfanswm y gost (£)	1,616,405,165	1,087,830,582	226,561,355	601,201,305	174,072,400	3,706,070,807
Cyfran amddifadedd*	-1.26%	22.74%	0.80%	6.53%	31.11%	8.70%

\* O fewn pob categori gwasanaeth

## Manylion cyswllt

**Pennaeth Iechyd Rhyngwladol, Dirprwy Gyfarwyddwr:** Dr Mariana Dyakova ([mariana.dyakova@wales.nhs.uk](mailto:mariana.dyakova@wales.nhs.uk))

**Arweinydd y Prosiect:** Rajendra Kadel ([rajendra.kadel@wales.nhs.uk](mailto:rajendra.kadel@wales.nhs.uk))

WHO Collaborating Centre on Investment  
for Health and Well-being  
Public Health Wales  
Floor 5, 2 Capital Quarter  
Tyndall Street, Cardiff  
CF10 4BZ  
[www.publichealthwales.org](http://www.publichealthwales.org)

[phwwhocc.co.uk](http://phwwhocc.co.uk)

 [@phwwhocc](https://twitter.com/phwwhocc)

 [/Phwwhocc](https://www.facebook.com/Phwwhocc)



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Canolfan Gydweithredol Sefydliad  
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi  
ar gyfer Iechyd a Llesiant**



**World Health Organization  
Collaborating Centre on Investment  
for Health and Well-being**